

# Gwahardd Cosb Gorfforol

## Profiad y Ffindir

'Sdim Curo Plant!

Chwefror 2012

'Sdim Curo Plant!  
Children are Unbeatable! Cymru

Ym mis Chwefror 2012, bu Lynne Hill, Cyfarwyddwr Polisi Plant yng Nghymru, ar ymweliad â Helsinki yn y Ffindir i ddysgu mwy am ymrwymiad y Ffindir i barchu hawliau plant a'u hamddiffyn rhag pob ffurf ar drais gan gynnwys cosb gorfforol. Trefnwyd yr ymweliad gan Aelodau'r Cynulliad, Christine Chapman AC, Keith Davies AC, a Julie Morgan AC drwy Peter Newell o Ymgyrch 'Sdim Curo Plant! yn Llundain.

Mae'r Ffindir wedi rhoi amddiffyniad cyfartal i'w plant rhag ymosodiad o dan ddeddf 1983 ac nid yw'n goddef cosbi plant yn gorfforol yn y cartref na'r tu allan iddo. Mae arolygon a gynhaliwyd gyda phlant oedran ysgol uwchradd ym 1988 a 2008 yn dangos bod trais yn erbyn plant yn y cartref wedi gostwng yn ddramatig ers cyflwyno'r gwaharddiad. Ym 1988, nododd 72% o blant 15/16 oed eu bod wedi profi trais ysgafn gan eu rhieni yn y cartref o'i gymharu â 32% yn 2008. Ceir hefyd ostyngiad yn nifer yr achosion o drais difrifol ac ymosod symbolig. Nid yw cosbi corfforol bellach yn dderbyniol. Gofynnodd arolwg arall i oedolion a oeddent yn teimlo bod "cosbi corfforol, o leiaf fel eithriad, yn ddull derbyniol o fagu plant." Ym 1981, cytunodd 52% o ddynion a 44% o fenywod â'r datganiad hwn, ond erbyn 2007, roedd wedi gostwng i 32% o ddynion a 19% o fenywod.

Cynhaliwyd yr ymweliad â'r Ffindir gan y Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd a Lles, a drefnodd ddeuddydd o seminarau er mwyn i'r cyfranogwyr gael cyfle i archwilio nifer o faterion gan gynnwys y gyfraith a sut mae'n cael ei rhoi ar waith

a'i gorfodi. Edrychwyd hefyd ar yr hyn sy'n digwydd pan adroddir neu yr honnir bod rhiant yn cosbi'n gorfforol. Bu gweithwyr cymdeithasol a swyddogion swyddfa'r erlynydd yn siarad am y broses o gyfeirio ar gyfer ymchwiliad, ar pa gam neu o dan pa amgylchiadau y bydd yr heddlu neu'r erlyniaeth yn chwarae rhan, ac yn siarad am y polisi cyhuddo ac erlyn.

Ceir hefyd amrediad o wasanaethau cefnogi yn y Ffindir, llawer ohonynt yn wasanaethau cyffredinol, y gall rhieni droi atynt am gefnogaeth. Rhoddir gwerth ar ofal plant o ansawdd uchel sy'n hygyrch ac ar y system addysg. Mae gan y Ffindir hefyd strategaeth *Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Leihau Cosbi Plant yn Gorfforol 2010-2015*, a ddatblygwyd gan grŵp aml-asiantaeth a sefydlwyd gan Weinyddiaeth Materion Cymdeithasol a lechyd y Ffindir. Nod y cynllun yw cyfrannu at leihau nifer y plant sy'n profi cosb gorfforol ac a fydd yn teimlo ei fod yn dderbyniol pan gynhelir arolygon yn y dyfodol. Mae'n disgrifio'i amcan fel hyn: "cryfhau urddas dynol y plentyn a chynyddu parch o'r ddeutu rhwng plant a rhieni fel na fyddai unrhyw blentyn yn wynebu cosb gorfforol, ond yn hytrach yn gallu tyfu mewn awyrgylch ffafriol, tyner, llawn dealltwriaeth a chynhwysol."

Wrth ddychwelyd o'r ymweliad, sylw Lynne Hill oedd: "Roedd yr ymweliad yn ddiddorol iawn, gan roi llawer i ni gnoi cil arno. Roedd yn nodi amrediad o faterion i'w hystyried wrth ddatblygu amddiffyniad cyfartal i blant yng Nghymru."

Cyflwynwyd y gwaharddiad drwy Ddeddf Cystodaeth Plant a Hawl Mynediad 361/1983 y Ffindir, sy'n nodi: "*Rhaid magu plant gyda dealltwriaeth, ymdeimlad o ddiogelwch a thyrerwch. Ni chaniateir ei dawelu, ei gosbi'n gorfforol na'i gywilyddio fel arall. Rhaid cefnogi ac annog twf y plentyn tuag at annibyniaeth, cyfrifoldeb a bywyd fel oedolyn.*"

*Mae Cynllun Gweithredu Cenedlaethol y Ffindir i Leihau Cosbi Plant yn Gorfforol 2010-2015 yn cynnig y mesurau hyn:*

- Atgyfnerthu cefnogaeth o fewn y gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer rhieni sydd wedi gorflino i'w helpu i ymdopi
- Darparu gwasanaethau cefnogi i rieni sydd â phroblemau iechyd meddwl ac sy'n camddefnyddio sylweddau, gan gofio angen y plant am gefnogaeth hefyd
- Trefnu cefnogaeth magu plant yn y cartref yn ôl egwyddor trothwy isel ar y cyd â gwasanaethau amrywiol sydd eisoes yn bodoli ac ar-lein
- Cynnwys hawliau'r plentyn yn addysg sylfaenol ac ategol pob grŵp galwedigaethol sy'n gweithio gyda phlant
- Cynyddu ymddiriedaeth plant mewn gwasanaethau
- Canolbwyntio ar wasanaethau i deuluoedd â phlant bach mewn clinigau gofal plant ac mewn addysg a gofal plentynod cynnar er mwyn ymdrechu i atal cosb gorfforol
- Cryfhau rôl ysgolion mewn addysg hawliau dynol, yn benodol wrth gynghori bod cosb gorfforol wedi'i gwahardd yn ôl y gyfraith
- Cynnwys safbwynt hawliau dynol mewn gwasanaethau integreiddio a chysylltu â sefydliadau mewnfydwyr
- Sicrhau dilyniant gwasanaethau ar-lein sydd yn darparu gwybodaeth i blant ynghylch hawliau dynol a gwrthsefyll trais
- Cynnal ymgyrch casglu barn a chyhoeddusrwydd helaeth, 'Mae gan blant yr hawl i fagwraeth gadarnhaol' yn 2011
- Mynd i'r afael â lleihau cosbi corfforol wrth geisio atal trais rhwng pobl sydd mewn perthynas agos â'i gilydd
- Gwella cydweithio rhwng awdurdodau
- Atgyfnerthu arferion yn y system farnwriaethol
- Sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chasglu'n rheolaidd ynghylch amlygrwydd cosbi corfforol ac agweddau tuag ato
- Hybu parch tuag at hawliau ac urddas dynol plant, a lleihau cosbi corfforol yn y Ffindir drwy ei bolisi hawliau dynol, perthnasoedd dwyochrog a gweithredu amlochrog gan y CU, Cyngor Ewrop ac ar lefel yr UE



Mae Plant yng Nghymru ar hyn o bryd yn cynnal Ymgyrch 'Sdim Curo Plant! Os hoffech gefnogi 'Sdim Curo Plant!, neu gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â [cau@childreninwales.org.uk](mailto:cau@childreninwales.org.uk), Plant yng Nghymru, 25 Plas Winsor, Caerdydd, CF10 3BZ, Ffôn: 029 2034 2434